
PARTNERIAETH BWYD-AMAETH
AGRI-FOOD PARTNERSHIP

# Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru



## Gweledigaeth

Sector llaeth Cymreig sy'n gynaliadwy, proffidiol, effeithiol a blaengar ac sy'n dod â budd i bobl Cymru






Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government



# Fersiwn o'r ddogfen cyn ei hargraffu yw hon, ar gyfer 13 Tachwedd 2007



ISBN: ISBN: 978 0 7504 4318 0
G/344/07-08
CMK-22-04-030(164)
© Hawlfraint y Goron 2007

# Cynnwys


Rhagair gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig — Tudalennau 2 - 4

Neges gan Gadeirydd y Grŵp Strategaeth Llaeth — Tudalennau 5 - 6

Pennod 1
Crynodeb Gweithredol — Tudalennau 7 - 11

Pennod 2
Y sefyllfa bresennol — Tudalennau 12 - 30
(i) Trosolwg
(ii) Rhagweld tueddiadau'r farchnad

Pennod 3
Heriau a chyfleoedd — Tudalennau 31 - 37
(i) Mynediad i farchnadoedd a lleoliad
(ii) Cynhyrchion cyson ac o safon uchel
(iii) Ansawdd rheoli a llafur
(iv) Datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd

Pennod 4
Amcanion strategol, camau gweithredu a chanlyniadau — Tudalennau 38 - 45

Pennod 5
Gweithredu, monitro a gwerthuso — Tudalennau 46 - 48

Atodiad 1: Aelodau'r Grŵp Strategaeth Llaeth — Tudalennau 49

# Rhagair gan y Gweinidog dros Faterion Gwledig

Mae gan Gymru nifer o fanteision cystadleuol wrth gynhyrchu llaeth yn effeithlon a datblygu cynhyrchion llaeth newydd. Mae'r manteision hyn yn cynnwys ei thirwedd a'i hinsawdd; diwydiant sy'n seiliedig ar fusnesau teuluol yn bennaf; a'i henw da am gynhyrchu bwyd iach o safon. Gallai hyn oll greu brand heb ei ail.

Mae'r diwydiant llaeth yng Nghymru'n dal i wynebu sawl her o ran ceisio bodloni galw cwsmeriaid a chystadlu mewn marchnad gynyddol fyd-eang. Mae yna bwysau tymor byr a thymor hir ar bris llaeth wrth gât y fferm hefyd, a pheth anhawster o ran denu llafur medrus i'r diwydiant. Ar yr un pryd, credaf fod yr heriau hyn yn cynnig nifer o gyfleoedd i'r diwydiant, yn enwedig o ran datblygu cynnyrch, gweithio gyda'n gilydd a rhannu'r wybodaeth arbenigol sylweddol sydd gennym yma yng Nghymru.

Mae gan Lywodraeth Cynulliad Cymru rôl o ran codi ymwybyddiaeth o'r ffactorau sy'n effeithio ar y sector llaeth a chefnogi'r diwydiant trwy ei annog i arloesi a datblygu cynnyrch newydd a darparu cyngor technegol a rheoli busnes, yn bennaf trwy Cyswllt Ffermio. Ym mis Ebrill 2006, cymerwyd cam mawr tuag at ddatblygu'r diwydiannau cynhyrchu a phrosesu bwyd a diod yng Nghymru trwy uno Llywodraeth y Cynulliad a Chyfarwyddiaeth Bwyd-Amaeth Awdurdod Datblygu Cymru gynt. Erbyn hyn, mae Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad Llywodraeth y Cynulliad wedi ennill ei phlwyf fel sefydliad sydd mewn sefyllfa dda i ddatblygu'r diwydiant ymhellach a'i helpu i ymateb i heriau byd-eang.

Datblygwyd y Cynllun Gweithredu Strategol hwn mewn partneriaeth â diwydiant llaeth Cymru a'r Cyngor Datblygu Llaeth (MDC). Mae'n nodi ffyrdd y gall pawb sy'n gweithio yn y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys cynhyrchwyr a phroseswyr, weithio gyda'i gilydd a Llywodraeth y Cynulliad

i ymateb i'r heriau mewn ffordd gadarnhaol. O dan y Cynllun Gweithredu, bydd Llywodraeth y Cynulliad yn gweithio gyda'r Cyngor Datblygu Llaeth i ddarparu gwasanaeth cydgysylltiedig i ffermwyr llaeth trwy'r Rhaglen Datblygu Llaeth. Bydd y rhaglen yn darparu cymorth o'r safon uchaf i'r diwydiant yng Nghymru.

Mae'r heriau ar gyfer y sector yn cynnwys sut i liniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd, diogelu a gwella'n hamgylchedd a gwella systemau rheoli gwastraff. Mae angen cyngor a chymorth ar y sector er mwyn mynd i'r afael â'r materion hyn ac mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn nodi sut y darperir y cymorth hwnnw.

Mae Cyswllt Ffermio eisoes wedi rhoi cymorth effeithiol i'r sector llaeth mewn sawl ffordd gan gynnwys trefnu nifer o grwpiau trafod cynhyrchiol, brwdfrydig a llwyddiannus ar bynciau o ddiddordeb cyffredin. Mae'r grwpiau trafod hyn, o'u paru â chyfryngau fel meincnodi, wedi bod o fudd i'r ffermwyr hynny sydd wedi croesawu'r ddau gysyniad fel ffordd





o ddatblygu eu busnesau ffermio. Y bwriad yw parhau â'r grwpiau trafod hyn o dan y Rhaglen Datblygu Llaeth ac annog y diwydiant i ddefnyddio nifer o fesurau a fydd yn cefnogi cynaliadwyedd y sector.

Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn yn cyd-fynd ag ymrwymiad Llywodraeth y Cynulliad i ddatblygu cynaliadwy. Fe'i cyllidir gan nifer o ffynonellau, gan gynnwys arian rhaglen Llywodraeth y Cynulliad, cyfraniadau talwyr ardollau, cronfeydd sydd ar gael trwy Gynllun Datblygu Gwledig newydd Cymru 2007-2013 a Rhaglenni Cydgyfeirio'r UE a chefnogaeth y diwydiant ei hun. Mae'n ystyried y gwaith a wneir ar yr un pryd ar Strategaeth ar Waith: Tuag at 2007 y Bartneriaeth Bwyd-amaeth, sy'n cael ei hadolygu yn sgil newidiadau yn y farchnad, cystadleuaeth fyd-eang ac wrth i chwaeth a dewisiadau defnyddwyr newid.

Rwy'n cydnabod bod y diwydiant llaeth yn wynebu sawl her sylweddol ac mae'n bwysig achub ar y cyfleoedd a gyflwynir gan yr heriau hyn. Credaf fod dyfodol disglair i'r sector os bydd yn croesawu'r weledigaeth a nodir yn y Cynllun Gweithredu Strategol hwn ac yn mynd ati i fanteisio ar y cyfleoedd trwy gydweithio, cynyddu cynhyrchiant, gwella effeithlonrwydd, bod yn fwy arloesol gyda chynhyrchion a chanolbwyntio ar farchnadoedd dan frand sydd â gwerth ychwanegol.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a ymatebodd i'r ymarfer ymgynghori. Cafodd y sylwadau a dderbyniwyd eu hystyried yn ofalus wrth lunio'r Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru a ddylai helpu i sicrhau dyfodol cadarnhaol ar gyfer y diwydiant o'i roi ar waith.

**Elin Jones AC**

Y Gweinidog dros Faterion Gwledig

# Neges gan Gadeirydd y Grŵp Strategaeth Llaeth

Mae Grŵp Strategaeth Llaeth y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth wedi cytuno ar y weledigaeth ganlynol ar gyfer y diwydiant, sydd wedi'i chymeradwyo gan Weinidogion Llywodraeth y Cynulliad:

Sector llaeth Cymreig sy'n gynaliadwy, proffidiol, effeithiol a blaengar ac sy'n dod â budd i bobl Cymru.

Paratowyd y Cynllun Gweithredu Strategol gyda chefnogaeth Grŵp Strategaeth Llaeth Cymru sydd, ers 1999, wedi darparu cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ar ddatblygu gwasanaethau ar gyfer y diwydiant llaeth yng Nghymru. [Mae rhestr o aelodau'r Grŵp Strategaeth Llaeth yn Atodiad 1] Dros y blynyddoedd diwethaf, mae gwaith y Grŵp Strategaeth Llaeth wedi'i gyflawni ar adeg o ansicrwydd a newid yn y sector llaeth yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Ymhellach, mae wedi cymryd amser i'r sector yng Nghymru ymaddasu i'r farchnad heb ei rheoleiddio.

Mae nifer y ffermwyr llaeth wedi parhau i ostwng ledled Cymru a rhannau eraill o'r DU, ond mae lefelau cynhyrchiant llaeth wedi aros yn gymharol sefydlog. Mae'r rhan fwyaf o'r llaeth yn cael ei gynhyrchu gan ffermydd teuluol, sef asgwrn cefn y diwydiant llaeth yng Nghymru. Mae'r gallu i brosesu wedi cael ei resymoli mewn sawl achos, fel sy'n wir mewn sawl sector bwyd-amaeth cynnyrch crai arall. Yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddwn yn gweld newidiadau pellach yn y sector llaeth yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol. Rhaid i Gymru addasu i'r newidiadau hyn a chystadlu mewn amgylchedd rhyngwladol. Ni all fforddio gweithredu yn annibynnol ar yr hyn sy'n digwydd mewn marchnadoedd a gwledydd eraill. Bydd marchnadoedd yn parhau i gydgrynhoi o amgylch y masnachwyr blaenllaw yn y man gwerthu a bydd cwsmeriaid yn dal i alw am fwy o werth ychwanegol a chynhyrchion arloesol. Bydd marchnadoedd arbenigol yn parhau i dyfu, er mai ar raddfa fach y bydd hynny gan amlaf. Bydd y gystadleuaeth ryngwladol yn dwysáu

trwy newidiadau ym mecanweithiau cymorth y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) a thrwy ddatblygiadau Sefydliad Masnach y Byd (WTO), tra bydd pryderon am faterion fel yr amgylchedd, iechyd a maeth pobl, yn ogystal ag iechyd a lles anifeiliaid, yn cynyddu. Nid oes dim o hyn yn arbennig o newydd i'r sector, ond mae'r newidiadau'n digwydd yn fwy cyflym bellach gan arwain at fwyfwy o ofynion ar ffermwyr a phroseswyr, nid yn unig yng Nghymru, ond ar draws gweddill y DU ac mewn marchnadoedd rhyngwladol eraill.

Penododd y Grŵp Strategaeth Llaeth gwmni ymgynghori Promar International i gynnal adolygiad strategol o Ddiwydiant Llaeth Cymru. Yn dilyn ymgynghori helaeth gyda'r sector, darparodd Promar International adroddiad a oedd yn cynnwys nifer o gynigion ar gyfer y ffordd ymlaen. Mae adroddiad Promar wedi'i ystyried yn drylwyr gan y Grŵp Strategaeth Llaeth, sydd wedi paratoi'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y Cynulliad. Hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd at y gwaith o ddatblygu'r Cynllun Datblygu Strategol hwn ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru.

**Terrig Morgan MBE**

Cadeirydd y Grŵp Strategaeth Llaeth

# Pennod 1

## Crynodeb gweithredol

1 Mae'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn ar gyfer Diwydiant Llaeth Cymru wedi'i ddatblygu gan Lywodraeth y Cynulliad mewn partneriaeth â'r Grŵp Strategaeth Llaeth, sy'n cynrychioli'r sector, a'r Cyngor Datblygu Llaeth. Rydym wedi ymgynghori'n eang ar y ddogfen ac mae'r sylwadau a dderbyniwyd wedi'u hystyried yn ofalus. Caiff y cynllun ei gyhoeddi cyn cwblhau strategaeth ehangach ar gyfer Diwydiant Bwyd a Diod Cymru, a fydd yn mynd i'r afael â'r prif faterion strategol sy'n wynebu'r sectorau cynhyrchu sylfaenol a phawb yn y gadwyn gyflenwi. Oherwydd yr heriau sy'n wynebu ffermwyr llaeth ar hyn o bryd, ystyriwyd ei bod hi'n bwysig mynd ati i gyflawni gweithgareddau i helpu'r diwydiant i ymdopi â'r heriau hyn, yn hytrach nag aros am y strategaeth ehangach. Fodd bynnag, mae'n bosibl y caiff y cynllun gweithredu hwn ei addasu yn sgil cynnwys strategaeth Bwyd a Diod Cymru a ffactorau eraill.

2 Yng Nghymru, mae tua 2,300 o ffermwyr llaeth yn cynhyrchu tua 1,548 biliwn litr o laeth y flwyddyn, gydag 80% ohono'n cael ei ddefnyddio i gynhyrchu caws. Cyflogir tua 7,500 o bobl ym maes cynhyrchu a phrosesu llaeth ac mae rhwng 70-75% o'r llaeth a gynhyrchir yn cael ei brosesu yng Nghymru.

3 Mae'r prif heriau a chyfleoedd i'r diwydiant llaeth yn ymwneud â datblygu cynhyrchion â gwerth ychwanegol, manteisio ar nodweddion unigryw Cymru y gellir eu defnyddio at ddibenion brandio a marchnata, cyflwyno cynhyrchion llaeth arloesol i ymateb i newidiadau yng ngofynion defnyddwyr, gwella perfformiad busnes ac effeithlonrwydd technegol, gwerthu mewn marchnadoedd newydd a chynhyrchu llaeth mewn ffordd gynaliadwy.

4 Dylai llwyddo i oresgyn yr heriau hyn greu diwydiant llaeth cryf, deinamig sy'n canolbwyntio ar y farchnad. Byddai cymdeithas yn elwa ar ddiwydiant sy'n gweithredu i safonau amgylcheddol ac iechyd a lles anifeiliaid uchel, gan arwain at gynhyrchu bwyd diogel o safon uchel. Byddai rhoi'r Cynllun Gweithredu hwn ar waith yn llwyddiannus hefyd yn helpu i greu diwydiant hunanreoleiddiol sydd â'r hyder i fuddsoddi ar lefel fferm a lefel brosesu. Byddai'r sector llaeth yn ychwanegu gwerth trwy werthu o dan frand Cymreig, nodi tarddiad, natur ranbarthol ac ansawdd y cynnyrch. Byddai'r cynnydd mewn cyfoeth o ganlyniad i'r llwyddiant hwn yn cael ei rannu gan bawb yn y gadwyn gyflenwi.

5 Mae angen i'r diwydiant llaeth ganolbwyntio ar feysydd allweddol marchnadoedd, arloesedd, perfformiad busnes, effeithlonrwydd technegol, yr amgylchedd ac iechyd a lles anifeiliaid.

## Marchnadoedd

Dylai'r gadwyn gyflenwi gyfan ganolbwyntio ar y farchnad. Dylai gwell cyfathrebu ym mhob rhan o'r gadwyn cyflenwi bwyd helpu i gyflawni'r nod hon. Mae manwerthwyr wedi cydnabod bod yna fanteision i fodloni galw cwsmeriaid am gynnyrch llaeth lleol a rhanbarthol yng Nghymru a hyrwyddo bwyd o safon. Mae'n hanfodol felly bod cynhyrchwyr bellach yn cyflenwi llaeth a chynhyrchion llaeth eraill sy'n diwallu anghenion y farchnad. Mae yna sawl enghraifft o gynhyrchion arbenigol llwyddiannus sydd wedi ennill eu plwyf mewn marchnadoedd gartref a thramor. Gellir mynd ati i ymateb yn effeithiol i ofynion y farchnad trwy ehangu'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad a chynyddu nifer y cynhyrchion sydd ar gael tra'n sicrhau ansawdd a chyflenwad cyson i amrywiaeth eang o farchnadoedd, yn y DU yn bennaf ond y tu hwnt i'r DU hefyd.

Mae yna nifer o gyfleoedd yn y farchnad y dylai'r sector llaeth ystyried manteisio arnynt. Mae'r rhain yn cynnwys tueddiadau ar gyfer cynhyrchion iach heb lawer o fraster, prydau parod, ôl-troed amgylcheddol y gellir ei olrhain, cynhyrchion â tharddiad lleol unigryw, cynhyrchion ffordd o fyw, bwydydd cyfleus a'r sector gwasanaeth bwyd sy'n tyfu.

Bydd darparu gwybodaeth hygyrch am y farchnad a chymorth i ddatblygu masnach yn allweddol er mwyn mynd i'r afael â'r her hon a manteisio ar gyfleoedd yn y farchnad.

## Arloesedd

Dylai Cymru gael ei hystyried yn gartref cynhyrchion llaeth o safon ac yn ganolfan ragoriaeth ar gyfer datblygu cynhyrchion arloesol sy'n ychwanegu gwerth. Darperir gwell cymorth ar gyfer arloesedd a datblygu cynhyrchion newydd yn unol ag anghenion y sector llaeth. Dylai hyn arwain at gynnydd mewn cyfoeth a gaiff ei rannu gan bawb yn y gadwyn gyflenwi.

## Perfformiad busnes ac effeithlonrwydd technegol

Mae angen i'r sector wella perfformiad busnes ac effeithlonrwydd technegol. Mae Cyswllt Ffermio'n darparu cyngor, canllawiau a hyfforddiant integredig cynhwysfawr ar dechnegau cynhyrchu newydd trwy nifer o ddulliau, gan gynnwys grwpiau trafod. Dylai hyn arwain at gynnydd yn nifer y technegau newydd a fabwysiadir a dulliau rheoli busnes gwell.

## Yr Amgylchedd, Iechyd a Lles anifeiliaid, Newid yn yr Hinsawdd a'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Mae pryderon cynyddol ynglŷn ag iechyd a lles anifeiliaid, yr amgylchedd a newid yn yr hinsawdd, ynghyd â'r gwaith o gyflwyno rheoliadau newydd fel rhan o Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd, yn cyflwyno her i'r diwydiant mewn meysydd fel rheoli nitradau a slyri, lleihau allyriadau ar ffermydd ac oddi arnynt ac addasu systemau da byw. Er mwyn ateb yr heriau hyn a dod yn hunanreoleiddiol, mae Llywodraeth y Cynulliad a'r asiantaethau rheoleiddio yn darparu canllawiau a chymorth. Bydd y Cyswllt Ffermio newydd yn darparu cyngor o bob math ar faterion amgylcheddol sy'n cwmpasu agweddau fel ansawdd dŵr ac effeithlonrwydd ynni a dŵr, gan ganolbwyntio'n arbennig ar fanteision economaidd arferion amgylcheddol da.

Anogir y diwydiant i gymryd rhan mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol, sy'n cael eu hadolygu ar hyn o bryd. Mae safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid yn bwysig i ennyn hyder defnyddwyr mewn bwyd a diod o Gymru. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fynd ati o ddifrif i ddileu TB mewn gwartheg. Yn unol â'r Cynllun Gweithredu Strategaeth

Iechyd a Lles Anifeiliaid, mae'n annog pobl i ddefnyddio cynlluniau iechyd anifeiliaid, a ddylai wella iechyd a lles buchesi a phroffidioldeb cynhyrchwyr. Bydd Llywodraeth y Cynulliad yn parhau i weithio gyda'r sector i fynd i'r afael ag arferion amgylcheddol da a safonau uchel o ran iechyd a lles anifeiliaid.

6 Er mwyn gwireddu'r weledigaeth a amlinellir yn y Cynllun Gweithredu Strategol hwn, mae'r cynllun yn canolbwyntio ar y tair nod strategol ganlynol:

- Gwella dealltwriaeth o dueddiadau'r farchnad a dylanwadu ar ymddygiad defnyddwyr.
- Meithrin arloesedd a gwella cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi.
- Gwella perfformiad busnes cynhyrchwyr a phroseswyr i ymateb i newidiadau yn amodau'r farchnad, gofynion amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd a gofynion defnyddwyr.

7 Os caiff y Cynllun Gweithredu hwn ei roi ar waith yn llwyddiannus, bydd y diwydiant yn gweithredu ar ddwy raddfa:-

i. Yn gyntaf, cyfleusterau prosesu mawr o'r radd flaenaf yn cynhyrchu nwyddau a llawer iawn o gynhyrchion brand. Byddai'r cyfleusterau hyn yn cael eu cyflenwi gan ffermwyr llaeth effeithlon a medrus sy'n cynhyrchu llaeth yn broffidiol, tra'n sicrhau cynaliadwyedd amgylcheddol a safonau lles anifeiliaid uchel.

ii. Yn ail, byddai yna sector prosesu micro cadarn a brwd, gyda llawer o broseswyr graddfa fach a phroseswyr ar fferm yn masnachu'n llwyddiannus ar sail nodweddion fel cynnyrch organig, cynnyrch Cymreig, cynnyrch lleol a chynnyrch traddodiadol. Byddai'r proseswyr hyn, er eu bod yn gymharol fach ar eu pennau eu hunain, yn ffurfio sector arbenigol sylweddol gyda'i gilydd. Trwy weithio gyda'i gilydd, byddai'r sector hwn yn lleihau costau prosesu, marchnata a logisteg ac yn helpu i sicrhau prisiau premiwm ar gyfer llaeth o ffermydd bach, traddodiadol, sy'n cynnal safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchel.

8 Er mwyn llwyddo i gyflawni'r amcanion a amlinellir uchod, bydd Llywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid strategol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau cymorth trwy Cyswllt Ffermio a mentrau eraill. Nodir y camau gweithredu hyn yn y tablau ym Mhennod 4 (tudalennau 44-55) y cynllun hwn. Bydd cydweithio, cydweithredu a manteisio ar y cymorth sydd ar gael yn hollbwysig er mwyn i'r diwydiant gyflawni gweledigaeth gyffredinol y Cynllun Gweithredu hwn, sef:

Sector llaeth Cymreig sy'n gynaliadwy, proffidiol, effeithiol a blaengar ac sy'n dod â budd i bobl Cymru.

# Pennod 2

## Y sefyllfa bresennol

### (i) Trosolwg

1 Mae sector Prosesu Llaeth y DU wedi gweld newid mewn perchnogaeth ac ail-strwythuro sylweddol ers 2000. Mae hyn wedi effeithio ar gyfleusterau a swyddi yng Nghymru, gyda nifer o weithfeydd yn cau, gan gynnwys Hufenfa Llangadog dan berchnogaeth Dairy Farmers of Britain, canolfan brosesu Longslow ym Mae Colwyn ac, yn fwy diweddar, gwaith cynhyrchu a phecynnu caws Dairygold a Dyffryn Aeron yn Felinfach. Erbyn hyn, First Milk a Dairy Farmers of Britain yw'r cwmnïau mwyaf yng Nghymru. Nhw sy'n prosesu dros 60% o'r llaeth a gynhyrchir. Mae'r proseswyr blaenllaw eraill sy'n gweithredu yng Nghymru'n cynnwys Glanbia Foods, Hufenfa De Arfon, Saputo, Rachel's Dairies, Golden Vale a Castle Dairies. Yn ogystal, ceir nifer o gwmnïau cydweithredol a ffatrïoedd llai sy'n cynhyrchu llaeth, iogwrt a chawsiau. Yn ddiweddar, gwerthodd Dairy Crest ei ffatrïoedd caws yng Nghymru i First Milk. Mae First Milk, ynghyd â Ffatri Gaws Ffermwyr Llaeth Prydain yn Llandyrnog, bellach yn gyfle gwych i'r ddau fusnes mwyaf a reolir gan ffermwyr yng Nghymru symud eu haelodau'n agosach i'r farchnad, yn ogystal â darparu llwyfan i sicrhau twf ar gyfer y dyfodol.

2 Mae tua 75% o'r 1.5 biliwn litr o laeth a gynhyrchir bob blwyddyn yng Nghymru yn cael ei brosesu yn y wlad, tra bod y gweddill yn cael ei brosesu mewn ffatrïoedd yn y Gororau. Defnyddir tua 80% o'r llaeth a gynhyrchir yng Nghymru i gynhyrchu caws, o gymharu â 27% yn y DU, sy'n dangos bod ffermwyr llaeth Cymru yn ddibynnol iawn ar weithgynhyrchu cynhyrchion caws. Mae'r canolfannau prosesu yng Nghymru'n fach o gymharu â'r prif gwmnïau rhyngwladol. Fodd bynnag, gyda gwaith cynhyrchu llaeth wedi'i gronni mewn ardaloedd fel y de-orllewin, mae yna botensial i ddatblygu

canolfan brosesu ar raddfa fawr, a all brosesu llawer mwy nag y gallwn ar hyn o bryd, yn seiliedig ar fodel busnes cadarn a ddylai gynnwys strategaeth glir ar gyfer datblygu marchnadoedd newydd.

Mae 18 prynwr llaeth yn gweithredu yng Nghymru ac yn prosesu 70-75% o laeth Cymru.

Ffynhonnell: Promar 2005

Caiff 80% o laeth Cymru ei brosesu i greu cynnych caws. Mae cynhyrchion eraill yn cynnwys llaeth yfed, menyn, powdrau llaeth ac iogwrt.

Ffynhonnell: Promar 2005

Caiff 20-25% o laeth Cymru ei allforio i ganolfannau prosesu yn y Gororau yng Nghaer, Droitwich a Glan Hafren.


Ffynhonnell: Promar 20055





3 Mae allbwn gros cynhyrchwyr llaeth Cymru tua £278 miliwn y flwyddyn, ffigur sy'n cynrychioli tua 27% o holl allbwn amaethyddol Cymru. Ar hyn o bryd, mae tua 2,300 o gynhyrchwyr yng Nghymru, colled o dros 1,000 o gynhyrchwyr dros y pum mlynedd diwethaf. Mae'r cynhyrchwyr hyn yn rheoli tua 3,368 o fuchesi llaeth, gyda chyfartaledd o 83 buwch ym mhob buches. Mae'r mapiau canlynol yn dangos y duedd dros y 13 blynedd diwethaf:


## Nifer y Daliadau Llaeth 1993 fesul Ardal Fach




Policy GIU Technical Services Division

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

## Nifer y Daliadau Llaeth 2006 fesul Ardal Fach




Policy GIU Technical Services Division

Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

4 Mae tueddiadau'n dangos bod nifer y cynhyrchwyr yn gostwng ar gyfradd o ryw 5.6% y flwyddyn, ac amcangyfrifir mai dim ond 1,500 o gynhyrchwyr llaeth sylfaenol fyddai yng Nghymru erbyn 2010 pe bai hyn yn parhau. Mae'r arfer o greu busnesau ffermydd llaeth mwy yn digwydd yn bennaf er mwyn ymateb i'r farchnad. Mae'r rhan fwyaf o'r cynhyrchwyr wedi'u lleoli yn hen siroedd Dyfed a Chlwyd, ac ychydig dros 86 hectar yw maint fferm laeth, ar gyfartaledd. Mae'r rhan fwyaf o'r ffermwyr dros 50 oed, a'u hoedran ar gyfartaledd yw 54.4. Ychydig iawn sy'n iau na 30 oed. Felly, mae cynllunio ar gyfer olyniaeth yn fater perthnasol yn achos mwy na hanner y ffermwyr llaeth yng Nghymru. Er y bu lleihad yn nifer y cynhyrchwyr, mae maint y fuches odro yng Nghymru wedi aros yn gyson rhwng 264,000 a 281,000 o fuchod. Er hynny, mae cyfanswm y llaeth a gynhyrchir yng Nghymru wedi cynyddu yn ystod y blynyddoedd diwethaf i 1,548 biliwn litr y flwyddyn. Fodd bynnag, mae llawer o ffactorau'n dylanwadu ar y ffigurau hyn, yn enwedig y ffaith fod cyfran uchel o gynhyrchwyr Cymru wedi'u lleoli mewn Ardaloedd Llai Ffafriol. Mae'r tablau sy'n dilyn yn cymharu ffigurau'r cynhyrchwyr uchaf eu cost ac isaf eu cost dros y tair blynedd diwethaf.

## Cyfartaledd Costau Cynhyrchu Llaeth 2003-2004

| Ceiniog y litr | Cyfartaledd pob fferm | Traean uchaf (cost isel) | Traean isaf (cost uchel) |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gorbenion | 5.10 | 4.29 | 6.58 |
| Cyfanswm costau | 12.94 | 10.83 | 15.89 |
| Maint yr elw net | 5.17 | 7.63 | -0.35 |

## Cyfartaledd Costau Cynhyrchu Llaeth 2004-2005

| Ceiniog y litr | Cyfartaledd pob fferm | Traean uchaf (cost isel) | Traean isaf (cost uchel) |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gorbenion | 5.74 | 4.78 | 6.84 |
| Cyfanswm costau | 13.94 | 12.26 | 15.91 |
| Maint yr elw net | 7.67 | 11.69 | 3.30 |


## Cyfartaledd Costau Cynhyrchu Llaeth 2005-2006

| Ceiniog y litr | Cyfartaledd pob fferm | Traean uchaf (cost isel) | Traean isaf (cost uchel) |
|---|---|---|---|
| Cyfanswm gorbenion | 5.56 | 4.06 | 7.50 |
| Cyfanswm costau | 14.18 | 11.27 | 17.90 |
| Maint yr elw net | 4.47 | 7.96 | 0.34 |

Ffynhonnell: Wales Farm Income Booklet 2005-2006, Prifysgol Cymru, Aberystwyth

5 Mae'r tablau uchod yn dangos gwahaniaethau sylweddol rhwng costau cynhyrchu cynhyrchwyr cost isaf a chost uchaf, gyda chyfanswm cost cynhyrchu pob litr o laeth 6.63 cheiniog (bron 60%) yn uwch ar y ffermydd cost uchaf. Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod y gwahaniaeth rhwng costau cynhyrchu'r ffermydd cost isaf a chost uchaf yn cynyddu. Yn 2003-04, y gwahaniaeth rhwng cyfanswm costau'r cynhyrchwyr cost uchaf a chost isaf oedd 5.06 ceiniog y litr. Dylid nodi, fodd bynnag, nad yw llafur di-dâl gan y teulu wedi'i gynnwys yn y ffigurau uchod a bod costau cynhyrchu, fel ynni a phorthiant, wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf.

6 Dylid nodi hefyd fod y cyfartaledd cynnyrch llaeth ar bob fferm yng Nghymru yn is na chyfartaledd y DU (564,000 litr o gymharu â 750,000 litr) y flwyddyn. Fodd bynnag, mae nifer o ffactorau yn dylanwadu ar y ffigurau hyn, gan gynnwys y gyfran uwch o gynhyrchwyr sydd wedi'u lleoli mewn Ardal Lai Ffafriol (LFA) fel y dengys y map canlynol



Daliadau Llaeth Cofrestredig*
Daliadau Llaeth Cofrestredig
Ardaloedd Llai Ffafriol
Tir dan Anfantais Fawr
Tir dan Anfantais
Data ar 30/11/2006
*Cyflenwyd gan FSA
Policy GIU Technical Services Division
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

7 Mae cyfartaledd incwm fferm net ffermwr llaeth yng Nghymru wedi gostwng o £26,000 i tua £19,800 ers 2001/02, er ei fod wedi aros yn gymharol sefydlog dros y tair blynedd diwethaf. Yn ddiweddar, bu cynnydd amlwg mewn cynhyrchiant ond mae cynnydd mewn prisiau porthiant (£168 y dunnell ar gyfer gwenith ar hyn o bryd), tir ac adeiladau wedi gwrthbwyso hyn ac wedi effeithio ar incymau fferm yn gyffredinol. Mae'n bosibl y bydd prisiau porthiant yn parhau'n uchel hyd y gellir rhagweld. Bydd hyn yn her fawr i gynhyrchwyr llaeth, ond gall hefyd roi cyfle iddynt dyfu mwy o'u grawnfwydydd eu hunain i leihau costau porthiant. Mae'r tablau canlynol yn crynhoi costau mewnbynnau, allbynnau ac incymau fferm net dros y pum mlynedd diwethaf:

| | 2001/02 | 2002/03 | 2003/04 | 2004/05(p) | 2005/06(f) |
|---|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm allbynnau | 125,700 | 118,100 | 118,500 | 145,700 | 147,300 |
| Cyfanswm mewnbynnau | 99,700 | 99,900 | 100,400 | 125,200 | 127,500 |
| Incwm fferm net | 26,000 | 18,200 | 18,100 | 20,500 | 19,800 |

Ffynhonnell: cyhoeddiadau Llywodraeth Cynulliad Cymru

(f) - rhagolygon (p) - dros dro

Roedd allbwn crynswth cynhyrchion llaeth Cymreig yn £266.7 miliwn yn 2006, £290.6 miliwn yn 2005 a £279.3 miliwn yn 2004.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006

Mae yna 2,316 o ffermydd llaeth yng Nghymru sy'n cynhyrchu tua 1.5 biliwn litr o laeth y flwyddyn.

Ffynhonnell: MDC - Mawrth 2007

Mae ychydig dros 281,000 o fuchod godro yng Nghymru.

Ffynhonnell: MDC 2006

Ar gyfartaledd, mae yna 83 buwch ym mhob buches, ond mae'r ffigur hwn yn cynyddu.

Ffynhonnell: Llywodraeth Cynulliad Cymru 2006

Maint cyfartalog pob fferm yw 86 hectar, ond mae'r ffigur hwn yn cynyddu.

Ffynhonnell: Arolwg Busnesau Fferm Cymru 2006

Ym Mhrydain, mae cynhyrchion iogwrt, llaeth hylif, menyn a hufen yn cynhyrchu gwerthiant sy'n werth cyfanswm o £4.9 biliwn.

Ffynhonnell: Ffigurau TNS 2006

8 Ar gyfartaledd, mae pobl yng Nghymru'n gwario tua £1.91 yr wythnos ar gynnyrch llaeth, sef tua 9% o'u holl wariant ar fwyd a diod. Ar gyfartaledd, mae pobl Cymru'n yfed 40 mililitr yr wythnos yn llai o laeth cyflawn na gweddill y DU. Fodd bynnag, mae ffigurau ar gyfer llaeth sgim a hanner-sgim yn dangos bod Cymru'n yfed mwy na gweddill y DU. Er enghraifft, mae pobl Cymru'n yfed 95 mililitr y pen yr wythnos yn fwy o laeth hanner-sgim na gweddill y DU. Ar y cyfan, mae pobl Cymru'n yfed 124 mililitr y pen yr wythnos yn fwy o laeth na gweddill y DU ac mae defnyddwyr Cymru'n gwario mwy ar laeth hanner-sgim a sgim a llai ar laeth cyflawn na defnyddwyr yng ngweddill y DU. Mae'r tablau canlynol yn dangos patrymau defnyddio llaeth a chynhyrchion llaeth eraill, ynghyd â phatrymau gwario.

| Cyfartaledd defnydd yr un yr wythnos 2005/06 | Cymru | Gweddill y DU |
|---|---|---|
| Llaeth hylif (ml)) | | |
| - llaeth llawn | 470 | 510 |
| - llaeth hanner-sgim | 1,139 | 1,044 |
| - llaeth sgim | 178 | 109 |
| Cyfanswm defnydd | 1,787 | 1,663 |
| Iogwrt (ml) | 170 | 192 |
| Caws (g | 123 | 101 |
| Hufen (ml) | 17 | 18 |

Ffynhonnell: Arolwg gwariant a bwyd DEFRA

| Cyfartaledd defnydd yr un yr wythnos 2005/06 | Cymru | Gweddill y DU |
|---|---|---|
| Llaeth hylif | | |
| - llaeth llawn | 25 | 27 |
| - llaeth hanner-sgim | 61 | 60 |
| - llaeth sgim | 10 | 6 |
| Iogwrt | 35 | 42 |
| Caws | 60 | 56 |
| Hufen | 4 | 5 |

Ffynhonnell: Arolwg gwariant a bwyd DEFRA

9 Mae ystadegau cyfredol yn dangos y cyflogir oddeutu 5,000 yn y maes cynhyrchu llaeth yng Nghymru a 2,300 mewn gweithgareddau prosesu llaeth. Dylid nodi na all Cymru ddefnyddio'r holl laeth y mae'n ei gynhyrchu. Er mwyn sicrhau gwerth i economi Cymru, rhaid i'r diwydiant llaeth fod yn eangfrydig. Mae angen iddo ychwanegu cymaint o werth â phosibl at y llaeth amrwd, cyn allforio cynnyrch â gwerth ychwanegol uchel i ardaloedd eraill yn y DU, yr UE a gweddill y byd.

Mae dros 7,300 o bobl yn cael eu cyflogi ym maes cynhyrchu a phrosesu llaeth yng Nghymru.

Ffynhonnell: Promar 2005

10 Ers 2003, mae'r Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC) wedi'i ddiwygio'n rheolaidd i sicrhau bod cynhyrchiant amaethyddol yn canolbwyntio fwyfwy ar y farchnad a newidiadau yng ngofynion defnyddwyr. Mae'r pecyn diwygio wedi cyflwyno taliadau uniongyrchol i gynhyrchwyr llaeth trwy'r Premiwm Godro a thaliadau ychwanegol Cynllun y Taliad Sengl. Mae hyn yn helpu i ddigolledu'r diwydiant am ostyngiadau cynyddol yn y cymorth ar gyfer powdwr llaeth sgim a menyn a gostyngiadau i gymorthdaliadau allforio.

11 Cyflwynwyd system cwotâu llaeth yr UE fel dull o reoli cynhyrchiant, ac mae'n debygol y caiff ei hystyried fel rhan o'r adolygiad o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn 2008. Rhagwelir bod y system gwotâu gyfredol yn annhebygol o barhau y tu hwnt i fis Mawrth 2015 gan fod yr UE yn bwriadu lleihau dibyniaeth ar ddulliau rheoli'r farchnad a chreu diwydiant amaethyddol sy'n gynaliadwy, yn broffidiol ac

yn ymateb i'r economi cyflenwad a galw byd-eang. Gallai llacio amodau marchnad yr UE arwain at lai o bwysau oddi uchod ar brisiau i gynhyrchwyr wrth i gyflenwad ymateb yn fwy uniongyrchol i ofynion y farchnad. Mae'r cynhyrchwyr hynny sy'n gallu addasu eu busnesau i ateb yr her o gystadleuaeth gynyddol a mwy o broffidioldeb yn fwy tebygol o sicrhau prisiau premiwm ac yn y pen draw gwell lled ariannol. i.

Mae cynhyrchiant llaeth yn cael ei gyfyngu gan system gwotâu'r Undeb Ewropeaidd, ond mae'r UE yn ystyried gwaredu'r system yn raddol erbyn 2015. Cyfanswm cwota llaeth y DU yw ychydig dros 14,000 biliwn litr, gyda Chymru'n meddu ar 11% o'r cyfanswm, tua 1.5 biliwn litr.

**Ffynhonnell: MDC 2006**

Ar hyn o bryd, nid yw'r DU yn defnyddio'i chwota llaeth i gyd. Yn 2006-2007, roedd cwota cyfanwerthol dechrau'r flwyddyn yn 14,130 miliwn litr, ac roedd y cynhyrchiant tua 13,633 miliwn litr.

**Ffynhonnell: MDC 2007**

12 Mae cyswllt cynyddol diwydiant llaeth Cymru gyda marchnadoedd y byd yn golygu bod prisiau nwyddau'n ansefydlog, felly mae'n anochel bod prisiau llaeth wrth gât y fferm yn ansefydlog. Y ffermwyr a'r proseswyr hynny sy'n cyflenwi cynhyrchion premiwm i farchnadoedd sy'n talu prisiau premiwm sy'n debygol o gael y prisiau mwyaf ffafriol a bod yn fwy sefydlog. O ran proffidioldeb ar gyfer y dyfodol, mae'n bwysig i'r sector ganolbwyntio ar wella'i effeithlonrwydd busnes a thechnegol.

13 Mae'r diwydiant llaeth yng Nghymru yn ddiwydiant cynhyrchu sylfaenol pwysig o ran yr economi wledig a rheoli'r dirwedd yn gynaliadwy. Wrth helpu i gynnal bywyd yng nghefn gwlad, mae ffermwyr llaeth a phroseswyr yn gorfod cydymffurfio â mwy a mwy o ofynion a chyfyngiadau amgylcheddol. Gallai rheoliadau fel rhoi Cyfarwyddeb Pridd a Fframwaith Dŵr yr UE ar waith, ynghyd ag Atal a Rheoli Llygredd, sydd eisoes yn ofynnol i broseswyr llaeth, gael effaith fawr ar lawer o ffermydd llaeth. Gall natur arferion ffermio llaeth, gan gynnwys rheoli slyri a gwrtaith, casglu a storio elifion silwair, golchi'r parlwr godro a rheoli pridd oll beri risgiau amgylcheddol sylweddol os na chânt eu gwneud yn gywir.

Fodd bynnag, mae cyfle i ffermwyr hyrwyddo a manteisio ar eu safonau amgylcheddol uchel. Er enghraifft, gallai gweithredu ar gynlluniau gweithredu ar faeth a gwella'r gwaith o reoli a defnyddio slyri a gwrtaith leihau costau trwy leihau'r angen i brynu gwrtaith artiffisial drud.

14 Mae atal clefyd yn gwella lles anifeiliaid ac hefyd yn cyflwyno manteision economaidd i fusnesau fferm. Mae adolygu safonau bioddiogelwch, datblygu cynlluniau iechyd a rheoli symudiadau anifeiliaid mewn ffordd sy'n lleihau'r risg o glefyd yn cyfrannu at wella proffidioldeb busnesau llaeth. Mae mabwysiadu Cynllun Iechyd Fferm yn allweddol er mwyn sicrhau bod ffermwyr llaeth yn cyflawni'r safonau gorau posibl o ran iechyd a lles anifeiliaid ac yn codi lefelau incwm tra'n helpu i fynd i'r afael â phroblemau parhaus cloffni, mastitis a ffrwythlondeb sy'n gallu costio'n ddrud i'r diwydiant llaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi Ffolder Gwaith Cynllunio Iechyd Anifeiliaid am ddim i helpu ffermwyr llaeth a milfeddygon i gofnodi a dehongli gwybodaeth. Mae'r broses yn gydnaws â'r gofynion iechyd anifeiliaid o dan gynlluniau sicrwydd fferm ac mae pobl sy'n cadw da byw yn gallu penderfynu faint o wybodaeth i'w chofnodi, mewn ymgynghoriad â'u milfeddyg lle bo'n briodol.

15 Ceir sawl elfen gadarnhaol sy'n unigryw i ddiwydiant llaeth Cymru, fel hinsawdd y wlad ac ansawdd ei glaswelltir, sy'n ei gwneud yn addas ar gyfer ffermio llaeth. Mae ffactorau eraill yn cynnwys ymroddiad ffermwyr a gweithwyr, lleoliad cyfleusterau prosesu yn agos i'r man cynhyrchu a'r cymorth sydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad a'i phartneriaid, sy'n cynnwys grantiau, cyngor a chanllawiau. Ers 2003, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi darparu bron £16 miliwn o gymorth grant i fusnesau llaeth yng Nghymru, gan sicrhau buddsoddiad cyfan o £42.5 miliwn yn y sector. Yr her yw addasu i'r farchnad newidiol, cynyddu effeithlonrwydd, mynd ati i arloesi, mabwysiadu'r arferion technegol gorau, datblygu'r gallu prosesu, marchnata cynhyrchion Cymru'n ehangach a gwella'r rheolaeth o fusnesau'n gyffredinol.


16 Mae nifer o fentrau newydd yn y sector sy'n llwyddo. Er enghraifft, mae Trioni, Caws Cenarth a Rachel's Dairy yn astudiaethau achos gwych o fusnesau llaeth organig sydd wrthi'n datblygu cynhyrchion newydd ac yn ceisio sicrhau cyfran fwy o'r farchnad bwyd a diod yn y DU ac yn rhyngwladol. Enghraifft arall dda sy'n dangos manteision cydweithio yw `Cheeses from Wales'. Sefydlwyd y cwmni gan wneuthurwyr caws Cymreig i farchnata a dosbarthu dewis helaeth o gawsiau Cymreig ar y cyd. Gyda dewis o dros chwe deg o gawsiau, gan gynnwys llawer sydd wedi ennill gwobrau cenedlaethol, mae gan Cheeses From Wales ddewis helaeth o gynhyrchion o'r radd flaenaf.

## (ii) Rhagweld tueddiadau'r farchnad

17 Mae digwyddiadau'r farchnad yn 2007 yn dangos y dylanwad mawr y mae marchnadoedd nwyddau wedi ei gael ar farchnadoedd llaeth Cymru a'r DU. Mae'r ffaith bod prisiau wedi codi'n gyflym yn ddiweddar yn dangos pa mor agored yw ffermwyr llaeth Cymru i ffactorau macro-economaidd sy'n dylanwadu ar gyflenwad a galw byd-eang mewn perthynas â chynhyrchion llaeth. Ddechrau 2007, gwelwyd llawer o archfarchnadoedd yn gweithredu cadwyni cyflenwi pwrpasol ar gyfer eu llaeth hylif. O ganlyniad, mae'n debygol y bydd llawer o'r ffermwyr llaeth yng Nghymru nad ydynt yn rhan o'r contractau hyn yn fwy agored i'r marchnadoedd nwyddau byd-eang yn y dyfodol. Mae twf economaidd byd-eang cryf (5.4% yn 2006) yn parhau i sbarduno galw defnyddwyr, gyda defnydd byd-eang yn cynyddu tua 3% y flwyddyn. Yn ogystal â hyn, yn y byrdymor, mae'n annhebygol y bydd cynhyrchiant byd-eang yn cynyddu llawer mwy na'r 1.5% o dwf a welwyd rhwng 2006 a 2007. O ganlyniad i'r anghydbwysedd hwn rhwng cyflenwad a galw, hyd yn oed os yw'r ffigurau uchaf erioed a welwyd yn 2007 yn lleihau i lefelau mwy cynaliadwy, mae llawer o ddadansoddwyr y farchnad yn disgwyl i brisiau nwyddau aros yn uwch nag y buont yn y gorffennol am sawl blwyddyn. Er mwyn cyfyngu ar gysylltiad â'r marchnadoedd byd-eang hynod ansefydlog hyn ac osgoi cystadlu'n uniongyrchol â chynhyrchwyr llaeth cost isel y byd, mae'n rhaid i'r diwydiant yng Nghymru geisio cynyddu cyfran y llaeth a ddefnyddir ar gyfer cynhyrchion â gwerth ychwanegol a tynnu sylw at y safonau amgylcheddol a lles anifeiliaid uchel sydd ar waith yng Nghymru.

### Mae angen i'r sector fod yn fwy cystadleuol mewn marchnadoedd nwyddau a gallu ymateb yn gadarnhaol i newidiadau yn y marchnadoedd nwyddau a gwerth ychwanegol.

18 Mae marchnad laeth y DU yn gymharol sefydlog, ond mae defnydd yn cynyddu wrth i ymddygiad defnyddwyr newid trwy gynhyrchu cynnyrch â gwerth ychwanegol fel nwyddau organig a nwyddau brand. Mae'r twf mewn gwerthiant yn y sector llaeth organig, sef 20% yn 2006, wedi'i gyfyngu i ffigurau sengl ar hyn o bryd oherwydd cyfyngiadau cyflenwi. Felly, mae yna gyfle i ragor o ffermydd droi'n organig. Mae'r map canlynol yn dangos nifer y ffermydd llaeth organig yng Nghymru:


Dosbarthiad Daliadau Llaeth Organig 2007
06/11/2007
Policy GIU Technical Services Division
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Welsh Assembly Government

19 Adeg ysgrifennu'r Cynllun Gweithredu hwn, roedd llaeth organig yn costio rhwng 27 a 28.6 ceiniog y litr. Mae'r pris hwn yn debygol o godi 3 cheiniog y litr er mwyn talu costau cynyddol porthiant a chadw'r gwahaniaeth dros y cynnyrch confensiynol. Mae pryderon cynyddol ymhlith defnyddwyr ynglŷn â'r amgylchedd, arferion ffermio, iechyd a maethiad yn debygol o barhau i sbarduno'r galw am gynhyrchion llaeth organig. Mae'r defnydd o fenyn a hufen yn aros yn gyson o flwyddyn i flwyddyn, ond cynyddodd gwerthiant cynhyrchion organig 31% yn 2005. Er bod cyflenwi digon o gynnyrch organig i ateb y galw yn parhau i fod yn her, mae angen i'r sector llaeth edrych ar gyfleoedd i ateb y galw am laeth organig, sy'n debygol o gynyddu 25% o un flwyddyn i'r llall hyd y gellir rhagweld. Mae hefyd le i dyfu o ran canfod cynhyrchion lleol ac yn y farchnad cynnyrch llaeth swyddogaethol sy'n cael ei hysgogi gan yr agenda iechyd a'r agenda faethiad. Er bod marchnadoedd caws yn tyfu'n araf ledled yr UE, mae'r twf araf hwn yn dal i fod yn arwyddocaol oherwydd y cyfeintiau mawr o laeth a ddefnyddir yn y marchnadoedd hyn. Hefyd, mae llawer iawn o gaws yn cael ei fewnforio, yn enwedig cawsiau arbenigol, ac mae hyn yn awgrymu bod cyfle gwirioneddol i gynhyrchwyr caws Cymreig arbenigol sy'n ychwanegu gwerth.

20 Yn fras, mae'r farchnad ar gyfer cynhyrchion llaeth wedi'i rhannu'n llaeth hylif, caws, iogwrt, brasterau melyn (h.y. menyn a chynhyrchion tebyg) a hufen. Mae yna hefyd farchnadoedd ar gyfer bwydydd cyfleus, prydau parod a chynhyrchion iach a maethlon sy'n cael eu sbarduno gan gynnydd mewn incymau gwario, ffyrdd newydd o fyw a'r galw am fwydydd sy'n gwella iechyd. Mae'r duedd tuag at ddewisiadau braster is fel llaeth sgim a hanner-sgim ac iogwrt a chawsiau braster isel yn debygol o barhau ac, yn fwy diweddar, bu galw am fwydydd llaeth swyddogaethol fel y rheini sy'n lleihau lefelau colesterol a'r rheini â fitaminau a mineralau ychwanegol. Yn sgil y tueddiadau hyn, gall cynhyrchwyr ddatblygu cynhyrchion ymhellach, yn enwedig o ystyried y ffaith bod y galw am iogwrt a chawsiau wedi bod yn cynyddu.

Mae gwerthiant llaeth sgim a hanner-sgim wedi codi dros 20% ers 2002, ac mae'n yn cynrychioli 76% o'r farchnad. Mae'r galw am laeth organig wedi dyblu.

Mae'r sector caws domestig yn werth tua £1.93 biliwn ac mae'n cynyddu'n raddol. Mae gan y sector gyfran o 26.9% o farchnad y DU.

## Mae'r farchnad iogwrt yn y DU wedi tyfu dros 50% ers 2001.

**Ffynhonnell: Milk and Dairy Products 2007**

21 Mae'r tueddiadau mewn perthynas â chynhyrchion llaeth wedi'u prosesu yn cynnig sawl cyfle i gynhyrchwyr llaeth yng Nghymru, sef:

- Mae llaeth â blas sy'n barod i'w yfed yn ddeniadol i lawer o ddefnyddwyr. Mae yna ddiddordeb cynyddol mewn tarddiad a chawsiau rhanbarthol, ac mae defnyddwyr yn barod i dalu prisiau premiwm amdanynt.
- Mae byrbrydau caws a chawsiau sydd â maetholion wedi'u hychwanegu atynt yn feysydd twf.
- Mae defnyddwyr yn debygol o gynyddu'r galw am ddiodydd iogwrt oherwydd eu manteision iechyd a'r ffaith eu bod yn fyrbrydau hwylus i'w cludo. Mae yna ymdrechion i ganfod manteision iechyd a mannau gwerthu newydd.
- Mae'r galw am hufen yn cynyddu'n raddol, yn enwedig hufen UHT a crème fraiche braster isel.
- Rydym wedi gweld twf mewn taeniadau 'gwell i chi' sy'n cynnwys llai o fraster ac yn gallu lleihau colesterol.
- Mae cynhyrchion hufen iâ sy'n apelio i bob aelod o'r teulu ac yn cyfrannu at fyw'n iach yn faes twf posibl.

## Mae angen i'r sector fod yn ymwybodol o dueddiadau'r farchnad a chael ei annog i ymateb yn gadarnhaol iddynt mewn perthynas â marchnadoedd nwyddau a gwerth ychwanegol.

22 Mae'r holl fanwerthwyr blaenllaw yn bwriadu ehangu eu busnes yng Nghymru a cheir tueddiad diweddar i brynu'n lleol. Yng Nghymru, mae cyfanswm y cynhyrchion llaeth a brynir yn lleol yn amrywio'n sylweddol rhwng y gwahanol archfarchnadoedd, gyda siopau manwerthu unigol yn stocio rhwng 40 a 300 math o gynhyrchion bwyd a diod o Gymru. Mae cyfanswm y cynhyrchion llaeth a brynir yn lleol wedi cynyddu'n sylweddol ac mae potensial ar gyfer twf sylweddol pellach yn y maes.

## Dylai'r sector ymateb i anghenion manwerthwyr a chynyddu cyflenwad y cynhyrchion a gynhyrchir yn lleol.

23 Mae archfarchnadoedd wedi dechrau rheoli yn ôl categori mewn perthynas â chyflenwyr llaeth allweddol ac mae hyn yn debygol o arwain at lai o gyfrifon manwerthu allweddol ac, mewn rhai achosion, un cyflenwr yn unig. Mewn gwirionedd, mae rheoli yn ôl categori yn y sector manwerthu'n golygu rheoli categori bwyd penodol, fel cynhyrchion llaeth, gyda'r nod o gynyddu gwerthiant i'r eithaf. Yn sgil hyn, mae gofyn i'r diwydiant llaeth fod yn ymwybodol o anghenion y defnyddiwr a'r manwerthwr. Bydd angen i'r sector ddatblygu sgiliau ac arbenigedd newydd mewn meysydd fel dadansoddi ymddygiad defnyddwyr, marchnata a hyrwyddo, pennu costau cadwyni cyflenwi a rheoli perthynas a rheoli yn ôl categori er mwyn targedu manwerthwyr lluosog yn effeithiol.

## Dylai'r sector gael cymorth i ddatblygu sgiliau newydd i ymdopi â goblygiadau rheoli yn ôl categori.

24 Mae'r sector gwasanaeth bwyd yn gyfle i sector llaeth Cymru gynyddu ei gyfran o'r farchnad oherwydd dangoswyd bod darparwyr gwasanaethau bwyd wedi ymrwymo i ddefnyddio cynnyrch o Gymru a bod ganddynt ddiddordeb mewn prynu cynhyrchion llaeth organig. Mae'r sector hwn yn tyfu ar gyfradd o 2-3% flwyddyn ar ôl blwyddyn ac un farn yw y byddai cwsmeriaid yn barod i dalu premiwm am gynhyrchion o Gymru.

## Dylai'r sector llaeth gael cymorth i gyflenwi'r sector gwasanaeth bwyd yng Nghymru.

25 Mae allforion llaeth o Gymru yn werth ychydig dros £31 miliwn a dyma yw 4% o allforion cynnyrch llaeth y DU a 11% o'r holl laeth a gynhyrchir. Mae gwerth cyfredol y mewnforion i Gymru yn £30 miliwn y flwyddyn. Er bod ymdrechion yn cael eu gwneud i gynyddu'r defnydd o gynhyrchion llaeth yng Nghymru, gellir hefyd cynyddu'r lefelau allforio trwy ganolbwyntio ar farchnadoedd mewn rhannau eraill o'r DU ac ardaloedd fel Gorllewin Ewrop, lle mae'r farchnad yn gystadleuol iawn ond y defnydd yn uchel. Mae'r UE, gyda phoblogaeth o 450 miliwn o bobl ac incymau sy'n cynyddu, yn farchnad gymharol hawdd i gael mynediad iddi ac mae galw am gynhyrchion â gwerth ychwanegol. Mae'r rhan fwyaf o nwyddau caws a fewnforir yn dod o Weriniaeth Iwerddon. Fodd bynnag, trwy ddefnyddio brand y Gwir Flas, mae'n bosibl disodli'r mewnforion i Gymru.

Dylid annog y diwydiant i allforio mwy a mynd i'r afael â'r mater o ddisodli mewnforion.

26 Dros y 10-15 mlynedd nesaf, disgwylir i gyfran y defnyddwyr yn y dosbarth incwm uwch gynyddu dros 20%. Mae'r defnyddwyr hyn yn cymryd mwy a mwy o ddiddordeb mewn tarddiad bwyd a'r effaith y mae cynhyrchu bwyd yn ei chael ar yr amgylchedd.

Mae angen i'r sector llaeth ymateb i bobl ar gyflogau uwch trwy sicrhau ansawdd, olrheiniadwyedd, cynhyrchion gwahanol, arloesedd a gwerth ychwanegol y cynnyrch.

Mae angen i'r diwydiant ystyried y posibilrwydd o ymateb i'r twf mewn marchnadoedd arbenigol fel cynhyrchion organig, marchnadoedd ffermwyr a chynhyrchion cyfleus.

Mae diddordeb cynyddol defnyddwyr mewn ansawdd, olrheiniadwyedd, milltiroedd bwyd, allyriadau carbon a newid yn yr hinsawdd yn gyfle i ddatblygu cynhyrchion arbenigol gwerth uchel.

27 Er mwyn bodloni gofynion cwsmeriaid, mae angen i ddiwydiant llaeth Cymru ganolbwyntio ar hyfforddiant i fod yn hyderus y gall fodloni gofynion manwerthu nawr ac yn y dyfodol. Gall hyn gynnwys manteisio'n llawn ar dechnoleg fel cyfnewid data electronig (EDI), dangos ymrwymiad i safonau da o ran iechyd a lles anifeiliaid a'r amgylchedd, ymrwymo i gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol (CSR), dangos dealltwriaeth o dechnegau a gweithdrefnau rheoli yn ôl categori, dangos y gallu i weithio'n effeithiol gyda thimau technoleg bwyd manwerthwyr a mabwysiadu dull adeiladol o ddatrys problemau.

Mae angen i'r sector gael cymorth gyda hyfforddiant EDI, yr amgylchedd, safonau iechyd a lles anifeiliaid a datblygu dealltwriaeth o gysyniadau CSR, rheoli yn ôl categori a gofynion defnyddwyr a manwerthwyr.

# Pennod 3

## Heriau a chyfleoedd

1 Fel y nodir yn y bennod flaenorol, mae sawl ffactor sy'n effeithio ar gyflenwad a galw. Mae pob un o'r ffactorau hyn yn cyflwyno heriau a chyfleoedd. Dyma grynodeb o'r rhain:

## (i) Mynediad i farchnadoedd a lleoliad

2 Mae gan lawer o gynhyrchwyr llaeth Cymru gwsmeriaid terfynol ledled y DU ac, mewn rhai achosion, yn rhyngwladol, er mai'r prif farchnadoedd ar gyfer llaeth a chynhyrchion llaeth yn y DU yw'r prif ganolfannau poblogaeth yn Llundain a De-ddwyrain Lloegr, ynghyd â Chanolbarth Lloegr, Gogledd-orllewin Lloegr a Gogledd-ddwyrain Lloegr.

3 Mae proseswyr llaeth blaenllaw yn ystyried ymsefydlu wrth ymyl cysylltiadau da â'r draffordd sy'n hwylus ar gyfer yr ardaloedd cynhyrchu a'r marchnadoedd torfol. Mae cyfleoedd i ddenu mewnfuddsoddiad i ardaloedd penodol yng Nghymru sy'n gymharol agos at gynhyrchwyr a phrif gysylltiadau'r draffordd. Byddai ardaloedd cynhyrchu llaeth dwys y de-orllewin yn ddeniadol i broseswyr caws a chynhyrchwyr powdr menyn a llaeth tra byddai proseswyr llaeth hylif am fod yn agosach i'r ardaloedd trefol. Er bod Cymru'n cynhyrchu 11% o holl gynhyrchiant llaeth y DU, nid oes gan lawer o'r cwmnïau prosesu mwyaf safleoedd yma, yn bennaf oherwydd yr anawsterau dosbarthu tybiedig. Felly, mae angen datblygu cysylltiadau effeithiol yn y gadwyn gyflenwi gyda'r ffatrïoedd prosesu hynny a leolir yng Nghymru ar hyn o bryd.

Mae angen i gynhyrchwyr a phroseswyr yng Nghymru ddatblygu cysylltiadau agos yn y gadwyn gyflenwi, bod yn fwy effeithlon ac ymateb yn effeithiol i ofynion cwsmeriaid.

Dylai Busnes Rhyngwladol Cymru (IBW) ganolbwyntio ar ddenu cwmnïau mewnfuddsoddi llaeth i Gymru.

## (ii) Cynhyrchion cyson ac o safon uchel

4 Mae perfformiad technegol cynhyrchwyr llaeth wedi gwella flwyddyn ar ôl blwyddyn ac mae cynhyrchwyr y DU ymhlith y rhai mwyaf effeithlon yn Ewrop, ond mae lle o hyd i gynhyrchwyr a phroseswyr wella perfformiad eu busnes. Mae angen i brynwyr llaeth ddatblygu contractau sydd wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion y farchnad a defnyddwyr, tra dylai cynhyrchwyr geisio cyflawni eu contractau mor effeithlon â phosibl tra'n cael y prisiau gorau am eu llaeth. Mae gan gwmnïau prosesu ddiddordeb mewn partneriaethau tymor canolig i hirdymor gyda chynhyrchwyr llaeth ymroddedig, proffesiynol ac effeithiol.

Dylai'r diwydiant fanteisio ar y cymorth sydd ar gael a gweithio'n agos gyda sefydliadau cymorth busnes a thechnegol i wella'u cynhyrchion ac felly sicrhau pris uwch yn y farchnad.

## (iii) Ansawdd rheoli a llafur

5 Fel gyda diwydiannau eraill, mae cael gafael ar staff rheoli a staff eraill o safon uchel sydd wedi'u hyfforddi'n dda yn bwysig i'r diwydiant. Mewn astudiaeth gan yr MDC, nodwyd bod y meysydd cymhwysedd canlynol yn hanfodol i ddyfodol y diwydiant llaeth:

- Rheolaeth ariannol
- Cydymffurfiaeth statudol.
- Rheolaeth amgylcheddol
- Cymorth busnes
- Cynllunio iechyd ffermydd
- Rheoli pobl
- Sgiliau technegol ar gyfer ymdrin â da byw a datblygiad personol.

6 Yn ogystal, mae grwpiau ffocws hefyd wedi tynnu sylw at yr angen am hyfforddiant mewn sgiliau TG, iechyd a diogelwch, technegau meincnodi a sgiliau iaith a hyfforddiant sylfaenol ar gyfer gweithwyr sy'n fewnfudwyr, yn enwedig o Ddwyrain Ewrop. Yn ogystal, gwelwyd bod angen hyfforddiant mewn rheoli yn ôl categori a rheoli cwsmeriaid a datblygu ac arloesi yn y gadwyn gyflenwi o'r fferm i'r farchnad. Mae cymorth ar gael i hyfforddi a datblygu'r gweithlu trwy gyfrwng nifer o fentrau a rhaglenni a ddarperir gan sefydliadau fel Cyswllt Ffermio, Lantra, Improve, Sefydliadau Addysg Bellach ac Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth y Cynulliad. Fodd bynnag, y brif her yw ysgogi ffermwyr llaeth i fanteisio ar hyfforddiant perthnasol.

Mae angen i ddarparwyr hyfforddiant hyrwyddo'r manteision yn ehangach, cynnig a darparu hyfforddiant mewn ffyrdd mwy arloesol a sicrhau bod yr hyn a gynigir yn diwallu'r anghenion a nodwyd.

Mae angen i'r diwydiant fanteisio ar y cymorth sydd ar gael i ddatblygu gweithlu sydd wedi'i hyfforddi'n dda er mwyn gwella'i allu i gystadlu ac ymateb i dueddiadau'r farchnad.

## (iv) Datblygu cynaliadwy a newid yn yr hinsawdd

7 Er mwyn cystadlu'n effeithiol mewn marchnadoedd byd-eang a chynnal hyder defnyddwyr, mae angen i ddiwydiant llaeth Cymru fod yn gynaliadwy yn economaidd, yn amgylcheddol ac yn gymdeithasol. Bydd rhaid iddo wella'i berfformiad busnes a thechnegol yn barhaus er mwyn sicrhau cynaliadwyedd ariannol, sy'n hollbwysig ar gyfer cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol. Yn yr un modd, mae cynaliadwyedd cymdeithasol ac amgylcheddol yn hanfodol i ddatblygu sector llaeth sy'n hyfyw'n economaidd. Bydd taro cydbwysedd priodol rhwng cynaliadwyedd economaidd ac amgylcheddol y diwydiant yn helpu i sicrhau cynaliadwyedd cymdeithasol ein cymunedau gwledig yn y dyfodol.

8 Mae newid yn yr hinsawdd yn peri pryder i Lywodraeth y Cynulliad, pobl Cymru a'r diwydiant llaeth. Fel y rhagwelir gan Raglen Effeithiau Newid yn yr Hinsawdd y DU, disgwylir y bydd tymereddau cyfartalog yn codi, gan arwain at hafau poeth a sych a fydd yn lleihau lleithder y pridd.

Bydd gaeafau'n fwynach, gyda llai o eira, a disgwylir y bydd glaw'r gaeaf a mynychder glaw trwm yn cynyddu hefyd. Mae newid yn yr hinsawdd yn cynnig cyfleoedd a heriau i'r diwydiant llaeth. Bydd angen addasu a lleddfu effeithiau er mwyn sicrhau bod y diwydiant yn cyfrannu at leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac nad yw effaith economaidd newid yn yr hinsawdd yn bygwth hyfywedd economaidd y diwydiant. Ymysg y cyfleoedd allweddol mae cynnydd o hyd at 20% mewn cynhyrchiant porfa, ehangu arwynebedd cnydau porthiant fel corn a'r potensial ar gyfer gaeafu gwartheg yn yr awyr agored oherwydd gaeafau cynhesach. Ymysg y cyfleoedd allweddol mae lleihau ôl-troed carbon trwy ddefnyddio ynni'n fwy effeithlon, mabwysiadu systemau treuliad anaerobig a lleddfu effeithiau sychder posibl a'r perygl cynyddol o erydu. Trwy'r rhaglen Cyswllt Ffermio, bydd y sector llaeth yng Nghymru'n derbyn cymorth a chanllawiau ar faterion rheoli carbon ac enghreifftiau o arfer gorau wrth reoli ynni trwy'r rhwydwaith o ffermydd arddangos.

9 Mae'r diwydiant amaethyddol yng Nghymru'n cyfrannu 67% o allyriadau methan i'r nwyon tŷ gwydr a gynhyrchir yng Nghymru. Mae'r diwydiant llaeth yn gyfrifol am ganran o'r allyriadau methan hyn, a gellir eu hidlo trwy dreuliad anaerobig a'u defnyddio fel tanwydd. Gall y broses treuliad anaerobig fod o fudd i'r diwydiant trwy gynhyrchu ffynhonnell newydd o danwydd a lleihau ôl-troed carbon tra'n parhau i fanteisio ar agweddau buddiol gwastraff fel cyflyrydd pridd a ffynhonnell maetholion.

Mae angen i'r diwydiant fynd i'r afael â chynaliadwyedd a newid yn yr hinsawdd er mwyn sicrhau sector sy'n hyfyw'n ariannol tra'n diogelu'r amgylchedd a chynnal bywyd gwledig.

Bydd angen i Lywodraeth y Cynulliad ddiffinio'r camau y gall diwydiant amaethyddol Cymru eu cymryd i leihau ei allyriadau erbyn y dyddiad targed, sef 2020. Ystyrir y diwydiant llaeth yn rhan allweddol o'r gwaith o gyflawni'r targed hwn.

10 Mae lefel uchel twbercwlosis mewn gwartheg yn parhau i gael effaith negyddol ar gynaliadwyedd y sector llaeth ac iechyd a lles anifeiliaid. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r

clefyd trwy weithio mewn partneriaeth â'r holl randdeiliaid i ddatblygu a gweithredu polisïau, gweithdrefnau a systemau i leihau nifer yr achosion o'r clefyd ac effaith y clefyd.

## Bydd angen datblygu systemau ffermio a pholisïau'r Llywodraeth i leihau effaith a nifer yr achosion o TB ar y cyd.

11 Mae'r Llywodraeth a chymdeithas yn poeni am yr amgylchedd, felly mae angen mynd i'r afael â'r mater hwn. Er bod angen cyflawni safonau amgylcheddol gofynnol i fodloni gofynion trawsgydymffurfio, mae yna gyfleoedd i wella cefn gwlad trwy fod yn rhan o gynlluniau amaeth amgylcheddol Llywodraeth y Cynulliad. Mae'r rhain yn cynnig cymhellion i gynhyrchwyr sylfaenol gadw eu tir mewn cyflwr amgylcheddol da, ond bydd rhaid cydbwyso'r defnydd o'r cynlluniau hyn gyda chynaliadwyedd cynhyrchiant llaeth yn yr hirdymor. Ni ddylai'r duedd i gynyddu maint buchesi i geisio sicrhau mwy o effeithlonrwydd gael effaith niweidiol ar yr amgylchedd neu'r safonau iechyd a lles anifeiliaid uchel cyfredol. Fodd bynnag, dylai bod modd mynd i'r afael ag amcanion amgylcheddol ac iechyd anifeiliaid tra'n dwysáu cynhyrchiant o ran maint buchesi. Dylid pwysleisio bod cynaliadwyedd yn mynd y tu hwnt i gynhyrchu sylfaenol a dylai ei egwyddorion gael eu gweithredu yn yr un modd ledled y gadwyn gyflenwi a bod yr un mor berthnasol i broseswyr a manwerthwyr ag y maen nhw i ffermwyr.

12 Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru. Gall y diwydiant llaeth wneud cyfraniad pwysig at thema allweddol yn y Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cymru trwy fynd i'r afael â materion newid yn yr hinsawdd trwy wneud defnydd mwy effeithlon o danwydd, porthiant a nitrogen, mabwysiadu technolegau newydd fel treuliad anaerobig a mabwysiadu arferion pridd sy'n diogelu a gwella'r stôr carbon yn y pridd. Mae'r Cynulliad hefyd wedi cyflwyno a gweithredu Strategaeth Amgylcheddol ar gyfer Cyswllt Ffermio. Mae pwyslais y rhaglen yn newid i sicrhau y bydd yn gallu darparu cyngor ar fioamrywiaeth a materion eraill sy'n ymwneud â diogelu'r amgylchedd i ffermwyr, ac ar yr un pryd yn eu hannog i gymryd camau gwirfoddol a all leihau effaith ffermio llaeth ar yr amgylchedd a helpu i osgoi neu leihau mesurau rheoli statudol pellach.

13 Mae arwyddion bod ffermwyr llaeth yn gallu bodloni gofynion trawsgydymffurfio Cynllun y Taliad Sengl ar gyfer safonau amgylcheddol sylfaenol. Mae gan gynllun amaeth-amgylcheddol Tir Cynnal 3,955 o ddeiliaid cytundeb gweithredol. Mae 698 o'r daliadau hyn yn cadw gwartheg godro, sy'n dangos cynrychiolaeth gyfrannol dda o ran ymuno â'r cynllun. Mae ffermwyr llaeth confensiynol sydd am newid i fanteisio ar y galw am gynnyrch organig hefyd wedi manteisio ar gynllun amaeth-amgylcheddol y Cynllun Ffermio Organig (OFS). Fodd bynnag, mae llawer o ffermwyr llaeth wedi nodi'r diffyg cynefinoedd cyfredol ar eu ffermydd a thaliadau isel fel rhesymau dros beidio â chymryd rhan. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal adolygiad o Gynlluniau Tir, ac mae'r adolygiad hwn yn cynnwys ystyriaeth o'r rhwystrau sy'n wynebu ffermwyr llaeth sy'n ystyried ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol. O ran mentrau amgylcheddol ar gyfer y dyfodol, mae adborth cychwynnol gan ffermwyr llaeth yn awgrymu y byddent yn croesawu dull dewislen fel y gallent gyfrannu at amcanion amgylcheddol trwy reoli cynefinoedd penodol, mabwysiadu mesurau arbed ynni, gwella ansawdd dŵr a lleihau eu hôl-troed carbon. Gallai'r ddewislen hon fod yn fersiwn estynedig o'r darpariaethau amgylcheddol, tirweddol, hanesyddol a mynediad cyfredol mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol sy'n bodoli'n barod.

14 Mae Llywodraeth y Cynulliad yn arwain prosiect peilot Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon, gyda chymorth Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae partneriaid y prosiect yn gweithio'n agos gyda'r gymuned ffermio i godi ymwybyddiaeth o sut mae arferion ffermio'n effeithio ar iechyd cyrff dŵr ac yn annog ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio sy'n sensitif i ddalgylch afon i leihau llygredd gwasgaredig. Bwriedir iddo hefyd fynd i'r afael â Chyfarwyddeb Fframwaith Dŵr Ewrop ar ansawdd dŵr. Mae gwaith monitro ansawdd dŵr yn cael ei ddefnyddio i ddangos materion allweddol i'r gymuned ffermio ac i ddangos cynnydd. Mae'r prosiect yn cynnwys elfen i werthuso agweddau ffermwyr at y prosiect, asesu'r defnydd o wahanol fesurau, y goblygiadau i fusnesau fferm a pha mor gost-effeithiol ydyw i roi'r mesurau amrywiol ar waith. Bydd y canfyddiadau hyn yn ddefnyddiol o ran datblygu mentrau i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig mewn ardaloedd eraill yng Nghymru.

Mae angen i'r gwersi a ddysgir o ganlyniad i'r prosiect Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon gael eu lledaenu i'r diwydiant a'u rhoi ar waith yn effeithiol.

15 Mae gan y sector llaeth gyfraniad pwysig i'w wneud yn y gwaith o sicrhau bod safonau gofynnol mewn perthynas ag ansawdd dŵr yn cael eu bodloni. Dros yr hanner can mlynedd diwethaf, mae dulliau ffermio mwy dwys wedi arwain at gynnydd yng nghyfanswm y nitrogen a gaiff ei roi ar y tir ac mae rhywfaint o'r nitrogen hwn yn cael ei golli i'r amgylchedd dyfrol mewn rhai ardaloedd bregus. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi ymgynghori ar gynigion i ymestyn Parthau Perygl Nitradau (NVZ) ac addasu mesurau'r Rhaglen Weithredu a roddwyd ar waith yn y parthau hynny er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â Chyfarwyddeb Nitradau y CE (91/676/EEC) (ND). Mae Defra wedi ymgynghori ar gynigion naill ai i ddynodi tua 70% o Loegr fel Parthau Perygl Nitradau arwahanol neu i roi'r rhaglen weithredu ar waith ledled Lloegr. Cyfran gymharol fach o Gymru, tua 0.6% (oddeutu 15,000 hectar), sydd yn dangos tystiolaeth o effeithiau llygredd nitradau o ganlyniad i amaethyddiaeth. Mae Llywodraeth y Cynulliad yn cynnig, yn unol â chyngor gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru, y dylid parhau i ddynodi Parthau Perygl Nitradau arwahanol yng Nghymru.

16 Mae yna draddodiad o berthynas waith gadarnhaol a chadarn rhwng y sector ffermio llaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru. Mae'r manteision wedi cynnwys lleihad amlwg yn nifer y digwyddiadau llygredd dŵr difrifol a gwelliannau mewn ansawdd dŵr a bioleg mewnffrwd mewn rhai ardaloedd. Yn y DU, mae Cynllun Amgylcheddol ar gyfer Ffermio Llaeth wedi'i ddatblygu mewn partneriaeth rhwng Asiantaeth yr Amgylchedd, Undeb Cenedlaethol yr Amaethwyr, y Cyngor Datblygu Llaeth, Dairy UK a Chymdeithas Frenhinol Ffermwyr Llaeth Prydain. Fodd bynnag, oherwydd gwahaniaethau mewn llywodraethu, cynlluniau amaeth-amgylcheddol a sefydliadau partner, mae angen dull penodol i Gymru o roi'r Cynllun Amgylcheddol ar gyfer Ffermio Llaeth ar waith. Caiff hwn ei gefnogi a'i oruchwylio gan y Grŵp Strategaeth Llaeth.

## Bydd y Cynllun Amgylcheddol ar gyfer Ffermio Llaeth yn cael ei addasu at anghenion Cymru.

17 Mae'r bennod hon wedi cyflwyno'r heriau sy'n wynebu'r sector a'r hyn sydd angen ei wneud i fynd i'r afael â nhw. Mae Llywodraeth y Cynulliad, y Cyngor Datblygu Llaeth a'r GGrŵp Strategaeth Llaeth, mewn partneriaeth â'r diwydiant, wedi cytuno ar yr amcanion a'r camau gweithredu canlynol o dan yr amcanion strategol a nodir ym mhennod gyntaf y cynllun hwn.

# Pennod 4

# Amcanion strategol, camau gweithredu a chanlyniadau

## Amcan Strategol 1:

Gwella'r ddealltwriaeth o dueddiadau'r farchnad a dylanwadu ar ymddygiad y defnyddiwr

| Amcan | Cam gweithredu |
|---|---|
| 1. Gwella'r wybodaeth sydd ar gael am y farchnad a'r defnydd ohoni gan y diwydiant llaeth er mwyn iddo allu canfod cyfleoedd yn y farchnad, targedu meysydd proffidiol ac arloesi. | (i) Cynnal archwiliad o'r wybodaeth am y farchnad sy'n berthnasol i ddatblygu'r diwydiant a sefydlu cronfa ddata.<br><br>(ii) Datblygu cynllun cyfathrebu.<br><br>(iii) Lledaenu gwybodaeth.<br><br>(iv) Comisiynu ymchwil i'r farchnad yn ôl yr angen, gan gynnwys dealltwriaeth o ymddygiad defnyddwyr, yn cychwyn gydag ymchwiliad i'r potensial o gynyddu allforion, gyda phwyslais ar allforio cawsiau rhanbarthol i rannau penodol o Orllewin Ewrop.<br><br>(v) Datblygu a hyrwyddo Datwm MDC a Datwm MDC Cymru at ddibenion gwybodaeth busnes. |
| 2. Nodi'r rhwystrau i fwyta cynhyrchion llaeth a mynd i'r afael â'r rhwystrau hyn. | (i) Nodi rhwystrau i fwyta cynhyrchion llaeth.<br><br>(ii) Cefnogi ymgyrchoedd marchnata sy'n rhoi sylw i ddelwedd cynhyrchion llaeth a thybiaethau pobl amdanynt.<br><br>(iii) Hyrwyddo manteision iach cynhyrchion llaeth.<br><br>(iv) Annog y gwaith o gyflwyno cynhyrchion llaeth mewn peiriannau gwerthu, yn enwedig mewn ysgolion ac ysbytai. |

| Corff cyfrifol | Cerrig milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Yr Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad (FMDD), y Cyngor Datblygu Llaeth (MDC), Rhaglen Datblygu Llaeth (DDP) Cyswllt Ffermio a Chanolfan Organig Cymru (OCW) | Archwiliad wedi'i gwblhau erbyn 31 Ionawr 2008.<br><br>Cronfa ddata wedi'i sefydlu erbyn 31 Mawrth 2008. | Gwybodaeth berthnasol am y farchnad yn cael ei chyfleu'n rheolaidd i'r diwydiant ar ffurf hygyrch er mwyn i'r sector llaeth allu datblygu, gan gynnwys mwy o arallgyfeirio marchnadoedd a thwf mewn allforion. |
| FMDD ac MDC | 31 Mawrth 2008. | |
| FMDD, DDP, OCW ac MDC | Bob dwy flynedd o 1 Ebrill 2008 ymlaen. | |
| FMDD ac MDC | 30 Medi 2007 | |
| MDC a DDP. | Misol | |
| MDC | 31 Rhagfyr 2007 | Galw cadarnhaol gan ddefnyddwyr am gynhyrchion llaeth yn arwain at ddefnydd uwch. |
| MDC | Parhaus | |
| MDC, Is-adran Gwella Iechyd y Cyhoedd (PHID), y Cyngor Llaeth. | Parhaus | |
| MDC a Llywodraeth Cynulliad Cymru | Parhaus | |

# Amcan Strategol 2:

Meithrin arloesedd a gwella cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi

| Amcan | Cam gweithredu |
|---|---|
| 1. Darparu cyngor a chymorth ar arloesi, datblygu cynhyrchion newydd ac ychwanegu gwerth at gynhyrchion a gwasanaethau sy'n bodoli'n barod. | (i) Asesu'r angen a datblygu rhaglen ddarparu ar gyfer arloesedd, datblygu cynhyrchion newydd a gwerth ychwanegol.<br><br>(ii) Annog cwmnïau i fanteisio ar y rhaglen gymorth sydd ar gael. |
| 2. Annog cysylltiadau gyda'r byd academaidd er mwyn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cynhyrchion gwerth uchel fel diodydd probiotig. | (i) Canfod sefydliadau ymchwil blaenllaw ac ymchwil sydd ar gael.<br><br>(ii) Annog Defra a sefydliadau ymchwil eraill i gynnal ymchwil sy'n bodloni anghenion sector llaeth Cymru.<br><br>(iii) Lledaenu gwybodaeth ymchwil<br><br>(iv) Nodi'r busnesau llaeth hynny sydd angen cymorth ymchwil a datblygu a meithrin cysylltiadau rhyngddynt a'r sefydliad ymchwil priodol.<br><br>(iv) Nodi'r busnesau llaeth hynny sydd angen cymorth ymchwil a datblygu a meithrin cysylltiadau rhyngddynt a'r sefydliad ymchwil priodol. |
| 3. Cynyddu lefelau mewnfuddsoddi. | (i) Hyrwyddo Cymru i'r sector prosesu llaeth fel lleoliad delfrydol ar gyfer buddsoddi.<br><br>(ii)Darparu'r seilwaith sydd ei angen i fod yn sail i ddatblygiadau newydd yn y sector. |
| 4 Gwella cysylltiadau'r gadwyn gyflenwi rhwng ffermwyr, proseswyr a manwerthwyr. | (i) Sefydlu cysylltiadau agosach gyda phroseswyr allweddol yng Nghymru a hwyluso cyfathrebu rhwng cynhyrchwyr, proseswyr a manwerthwyr.<br><br>(ii) Ymchwilio i'r potensial y gallai proseswyr a manwerthwyr gynyddu ymwybyddiaeth defnyddwyr o sector llaeth Cymru. |

| Corff cyfrifol | Cerrig milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| Rhwydwaith Bwyd Cymru (FNW), gyda chymorth FMDD, MDC, DDP, OCW a Llygad Busnes. | 30 Medi 2008. | Amrywiaeth o wasanaethau cymorth ar gael yn unol ag anghenion y sector llaeth.<br><br>Manteisio ar y cymorth a datblygu cynhyrchion newydd â gwerth ychwanegol. |
| Yr Is-adran Gwasanaethau Technegol (TSD) | 31 Medi 2008<br><br>Parhaus | Gwybodaeth ar gael am yr ymchwil ddiweddaraf.<br><br>Gwaith ymchwil sy'n diwallu anghenion diwydiant llaeth Cymru |
| DDP | Yn flynyddol o 1 Ebrill 2008 ymlaen | |
| TSD | 31 Medi 2008 | Mwy o fusnesau llaeth yn cysylltu â chyrff ymchwil i ddatblygu cynhyrchion newydd. |
| Timau Rhanbarthol FMDD a DDP. | Parhaus | Datblygu cynhyrchion arloesol. |
| Busnes Rhyngwladol Cymru (IBW), FMDD. | Parhaus | Cynyddu faint o laeth a brosesir yng Nghymru ac effeithlonrwydd y cyfleusterau prosesu llaeth yng Nghymru. |
| FMDD a DDP | Parhaus<br><br>31 Rhagfyr 2008 | Gwell dealltwriaeth o faterion priodol sy'n arwain at sail gyflenwi deunydd crai sy'n fwy effeithlon ac yn cael ei rheoli'n well.<br><br>Mwy o ymwybyddiaeth ymhlith defnyddwyr o gynhyrchion a gynhyrchir yn lleol. |

# Amcan Strategol 3:

Gwella perfformiad busnes cynhyrchwyr a phroseswyr mewn ymateb i amodau newidiol y farchnad, gofynion amgylcheddol, newid yn yr hinsawdd a galw defnyddwyr

| Amcan | Cam gweithredu |
|---|---|
| 1. Rhoi cyngor a chanllawiau cynhwysfawr ac integredig i ffermwyr ar reoli busnes a thechnegau cynhyrchu ac amgylcheddol newydd. | i) Cynllunio cyngor, canllawiau a chymorth integredig â ffocws pendant o dan y rhaglen Cyswllt Ffermio newydd.<br><br>(ii) Darparu Rhaglen Cyswllt Ffermio.<br><br>(iii) Ailgynllunio'r gwaith o ddarparu'r Rhaglen Datblygu Llaeth o dan raglen Cyswllt Ffermio.<br><br>(iv) Darparu'r Rhaglen Datblygu Llaeth gyda ffocws newydd trwy ddull darparu Cymru gyfan.<br><br>(v) Annog defnydd ehangach o Milkbench a grwpiau trafod sy'n seiliedig ar y gadwyn gyflenwi.<br><br>(vi) Nodi a gweithredu amcanion sy'n briodol i Gymru yn y Cynllun Amgylcheddol ar gyfer Ffarmio Llaeth.. |
| 2. Helpu ffermwyr llaeth a phroseswyr gyda gwaith datblygu masnach. | (i) Darparu gwybodaeth am gyfleoedd masnach cenedlaethol a rhyngwladol.<br><br>(ii) Annog pobl i gyfrannu at deithiau a sioeau masnach cenedlaethol a rhyngwladol a rhoi cymorth iddynt.<br><br>(iii) Darparu cymorth ar reoli yn ôl categori a rheoli cyfrifon gyda manwerthwyr.<br><br>(iv) Rheoli cyfrifon y prif broseswyr llaeth yn y DU ac yn rhyngwladol.<br><br>(v) Darparu cyngor a chymorth ar gyflenwi'r sector cyhoeddus.<br><br>(vi) Annog mwy o broseswyr llaeth i gymryd rhan yng Ngwobrau'r Gwir Flas a gweithgareddau cysylltiedig. |

| Corff cyfrifol | Cerrig milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| FMDD | 1 Ebrill 2008 | Mwy o dechnegau newydd yn cael eu mabwysiadu, datblygu cyrsiau hyfforddi sy'n integreiddio cyngor busnes ac amgylcheddol a dulliau rheoli busnes gwell. |
| DDP | Parhaus | |
| MDC/DDP | Ailgynllunio'r Rhaglen Datblygu Llaeth erbyn 1 Ebrill 2008. | |
| FMDD/DDP | Rhaglen Datblygu Llaeth gyda ffocws newydd erbyn 1 Ebrill 2008 | |
| | Parhaus | |
| | 31 Hydref 2008 | Gwell dulliau rheoli amgylcheddol. |
| FMDD, Busnes Rhyngwladol Cymru (IBW) a DDP. | Parhaus | Cynnydd mewn masnach. |
| FMDD | Parhaus | Gwell perthynas gyda masnachwyr a sicrhau busnes newydd. |
| FMDD | Cyfarfordydd blynyddol | Cadw busnesau proffidiol yng Nghymru, mwy o fuddsoddiad a gwell enillion i gynhyrchwyr. |
| FMDD a Gwerth Cymru | Parhaus | Cynnydd yn y defnydd o gynnyrch llaeth Cymreig gan y sector cyhoeddus, gan arwain at brydau bwyd iachach a chaffael cynaliadwy. |
| FMDD | Parhaus | Twf ymhlith proseswyr llaeth Cymru. |

| Amcan | Cam gweithredu |
|---|---|
| 3. Sicrhau bod mentrau lles a thechnegau iechyd anifeiliaid priodol yn cael eu mabwysiadu.. | (i) Annog pobl i ddefnyddio cynlluniau iechyd buchesi cyfan.<br><br>(ii) Datblygu ac arddangos systemau cynhyrchu a thechnegau rheoli sy'n gwella iechyd a lles buchesi i gyfrannu at broffidioldeb y cynhyrchwr.<br><br>(iii) Datblygu a chefnogi polisïau a gweithdrefnau a fydd yn cyfrannu at leihau a rheoli TB mewn gwartheg.. |
| 4. Hyrwyddo defnydd cynaliadwy o adnoddau naturiol yn seiliedig ar wyddoniaeth gadarn.. | (i) Annog pobl i ofyn am yr archwiliadau amgylcheddol cyfredol sydd ar gael gan Lywodraeth y Cynulliad ac Asiantaeth yr Amgylchedd.<br><br>(ii) Datblygu a threialu Archwiliad Gwastraff Fferm gydag astudiaethau achos.<br><br>(iii) Annog y defnydd o gynlluniau maetholion a chynlluniau rheoli gwrtaith.<br><br>(iv) Annog ffermydd i ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol fel Tir Cynnal, Tir Gofal a'r Cynllun Ffermio Organig.<br><br>(v) Comisiynu astudiaeth fanwl o'r ffactorau tybiedig sy'n rhwystro pobl rhag ymuno â chynlluniau amaeth-amgylcheddol.<br><br>(vi) Monitro a gwerthuso'r gwersi o'r cynllun Ffermio Sensitif i Ddalgylch Afon.<br><br>(vii) Nodi ôl-troed carbon systemau cynhyrchu llaeth Cymru a'r potensial ar gyfer datblygu systemau niwtral o ran carbon mewn cydweithrediad â phobl eraill yn y sector amaethyddol. |
| 5. Cynorthwyo datblygiad mentrau cydweithredol. | ) Sefydlu seilwaith yng Nghymru i gynorthwyo datblygiad mentrau cydweithredol.<br><br>(ii) Archwilio gwersi a ddysgwyd gan drefniadau ffermydd clwstwr yng ngwledydd eraill Ewrop. |

| Corff cyfrifol | Cerrig milltir | Canlyniad |
|---|---|---|
| OCVO, DDP, OCW ac MDC. | Parhaus. | Gwell iechyd a lles ymhlith buchesi a gwell proffidioldeb i gynhyrchwyr.<br><br>Lleihad yn yr achosion o TB mewn gwartheg. |
| TSD, DDP, OCW and MDC.<br><br>TSD<br><br>TSD, DDP, MDC<br><br>Tîm annibynnol o Brifysgol Cymru, Bangor a'r Grŵp Cynghori ar Ffermio a Bywyd Gwyllt.<br><br>DDP/MDC/TSD | Parhaus.<br><br>31 Mawrth 2008<br><br>1 Hydref 2008<br><br>1 Hydref 2008<br><br>31 Mawrth 2008<br><br>31 Mai 2008<br><br>31 Mai 2009 | Bydd dŵr ac ynni'n cael eu defnyddio'n fwy effeithlon.<br><br>Busnesau'n perfformio'n well a dŵr yfed o ansawdd gwell a fydd yn bodloni anghenion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr.<br><br>Bydd dŵr ac ynni'n cael eu defnyddio'n fwy effeithlon.<br><br>Manteision o ran cynaliadwyedd sy'n llesol i'r amgylchedd a ffermio llaeth.<br><br>Newidiadau mewn arferion amaethyddol, sy'n arwain at well ansawdd dŵr.<br><br>Lleihad mewn ôl-troed carbon. |
| FMDD<br><br>TSD, DDP ac MDC | 31 Mawrth 2008<br><br>31 Rhagfyr 2008 | Cymorth effeithiol ar gyfer datblygu dulliau cydweithredol.<br><br>Twf mewn mentrau cydweithredol a fydd yn sicrhau cyfran fwy o'r farchnad. |

# Pennod 5

## Gweithredu, monitro a gwerthuso

1 Mae'r bennod flaenorol yn amlinellu'r camau gweithredu i'w cymryd o dan y cynllun hwn er mwyn rhoi'r amcanion strategol ar waith a chyflawni'r weledigaeth ganlynol:

### Sector llaeth Cymreig sy'n gynaliadwy, proffidiol, effeithiol a blaengar ac sy'n dod â budd i bobl Cymru.

2 Mae'n amlwg y bydd gweithio mewn partneriaeth yn hanfodol er mwyn cyflawni gweledigaeth o'r fath. Felly, er mwyn datblygu'r amcanion a'r camau gweithredu cysylltiedig, bydd angen ymrwymiad llawn rhanddeiliaid ledled y gadwyn gyflenwi, gan gynnwys busnesau unigol sy'n eiddo i ffermwyr, proseswyr a manwerthwyr. Hefyd, mae sefydlu dull Cymru gyfan o ddarparu'r Rhaglen Datblygu Llaeth a mentrau cysylltiedig yr MDC yn hanfodol er mwyn rhoi'r cynllun ar waith.

3 Mae Llywodraeth y Cynulliad, mewn partneriaeth â'r Cyngor Datblygu Llaeth, wedi ymrwymo i gefnogi datblygiad y sector llaeth Cymreig, felly bydd yn rhoi trefniadau ar waith trwy'r Grŵp Strategaeth Llaeth ar gyfer gweithredu, monitro a gwerthuso'r Cynllun Gweithredu Strategol hwn. Bydd y Grŵp Strategaeth Llaeth yn cytuno ar fframwaith ar gyfer adroddiad ar gynnydd a'i fesur, ynghyd â meini prawf gwerthuso a fydd yn cynnwys y canlynol:-

- Mwy o alw ymysg defnyddwyr am gynhyrchion llaeth a chynhyrchion llaeth Cymreig yn arbennig.
- Nifer yr achosion o arloesi ac o ddatblygu cynnyrch newydd.
- Cynyddu/cadw cyfleusterau prosesu llaeth yng Nghymru.

- Cynnydd mewn masnach.
- Manteisio ar gyfleoedd y farchnad..
- Mwy cystadleuol.
- Nifer canlyniadau y gwelliannau busnes.
- Datblygu contractau llaeth a gyflwynwyd sy'n helpu'r farchnad i weithio'n fwy effeithiol.
- Defnyddio llai o ddŵr ac ynni.
- Mwy o gynhyrchion llaeth yn cael eu prynu gan y sector cyhoeddus.
- Mwy o ymwybyddiaeth o fanteision iechyd cynhyrchion llaeth.
- Gwell ymwybyddiaeth a rheolaeth o faterion amgylcheddol.
- Nifer y cynlluniau datblygu busnes fferm.
- Defnydd o ddulliau meincnodi fferm.
- Cynlluniau olyniaeth effeithiol.
- Defnydd o Gynlluniau Iechyd Buchesi.





- Nifer cynyddol o fentrau cydweithredol.

- Gwaith ymchwil er budd sector llaeth Cymru.

4 Dylai'r canlyniadau a nodir yn adran nodau ac amcanion strategol y Cynllun Gweithredu gyfrannu at weledigaeth gyffredinol y cynllun. Fodd bynnag, mae angen dull partneriaeth i weithredu'r nodau ac amcanion hyn ac felly bydd cynnydd yn dibynnu ar ymrwymiad llawn rhanddeiliaid o bob math, mawr a bach, ar draws y diwydiant, o grwpiau ffermwyr i gwmnïau mawr. Bydd datblygu deialog parhaus gydag unigolion a sefydliadau partner, ynghyd ag ymrwymiad ganddynt, yn sicrhau y caiff y Cynllun Gweithredu Strategol ei ddarparu'n effeithiol ac yn unol â'r amserlenni y cytunwyd arnynt.

5 Bydd Llywodraeth y Cynulliad, ynghyd â'r MDC a'r Grŵp Strategaeth Llaeth, yn datblygu mesurau perfformiad allweddol i olrhain cynnydd mewn perthynas â'r cynllun hwn ac yn cyhoeddi adroddiad blynyddol ar sut mae'r camau'n cael eu rhoi ar waith. Cyhoeddir yr adroddiad cyntaf erbyn 31 Tachwedd 2008.

## Atodiad 1

# Aelodau Grŵp Strategaeth Llaeth y Bartneriaeth Bwyd-Amaeth

Terrig Morgan, Cadeirydd

Bryan Thomas, Cadeirydd y Ganolfan Datblygu Llaeth/Grŵp Llywio'r Cyngor Datblygu Llaeth

Sue Jones, Caws Llanboidy

Paul Roberts, Canolfan Technoleg Bwyd, Coleg Menai

Yr Athro Robert Pickard, Sefydliad Maetheg Prydain a'r Asiantaeth Safonau Bwyd

Peter Rees, Coleg Sir Gâr

Gareth Roberts, Llaeth y Llan

Thomas Jones, aelod o'r Cyngor Datblygu Llaeth a ffermwr

Trevor Lloyd, aelod o'r Cyngor Datblygu Llaeth a ffermwr

John Weston Arnold, Ffermwr

William Prichard, Ffermwr

Paul Rowe, First Milk Cheese Company

Jim Begg, Dairy UK

John Griffiths, Canolfan Datblygu Llaeth

# Copïau ychwanegol

Gellir cael copïau ychwanegol oddi wrth:

Is-adran Datblygu Bwyd a'r Farchnad
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ